# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at Dirprwyo Swyddogaethau o dan Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 i'r Prif Weinidog a gyhoeddwyd gan Carwyn Jones, y Gweinidog dros, yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, ar 15 Mawrth 2006

**At Mick Bates:**

Yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Mawrth, cytunais ysgrifennu atoch parthed eich cwestiynau am y Gorchymyn cychwyn a nodir uchod.

Cyfeiriasoch at bwy fyddai'n derbyn unrhyw ddirwyon o dan y pwerau gorfodi a roddir i awdurdodau lleol. Byddai unrhyw ddirwyon a ddyfarner yn cael eu hamsugno yn ôl i system y llysoedd yn y ffordd arferol. Er hynny, mae Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 yn cynnwys y gallu i roi rhybudd o gosb benodol ar gyfer amrywiaeth o fân droseddau. Os awdurdod lleol sy'n rhoi'r rhybuddion o gosb benodol, gall ddefnyddio'r taliadau a geir o'r rhybuddion at bwrpasau penodol o dan y Ddeddf.

Er mwyn egluro, mae'r gost o £1,800 yn ymwneud â'r gost ar gyfartaledd i'r Cynulliad am drefnu i'r arolygwyr gynnal ymweliad â safle, gwrandawiad neu ymchwiliad lleol i apêl. O'm cyllideb i y byddai'r costau hyn yn dod.

Gan droi at eich cwestiwn ynghylch ymgynghoriadau yn gyffredinol, ni chedwir ffigurau am ganran yr ymatebion i ymgynghoriadau ar ddeddfwriaeth.